# Ysgol Y Strade

Heol Sandy, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 4DL

Ffôn: (01554) 745100 Ffacs: (01554) 745106

Annwyl Rhiant/Gwarcheidwad,

Yn gyntaf hoffwn ymgymryd â'r cyfle hwn i'ch croesawu i Ysgol y Strade. Mae'r awdurdod lleol bellach wedi cadarnhau lle i'ch plentyn yn y Strade ym Medi 2017, ac mae'n bleser gennyf gyflwyno digwyddiadau'r diwrnodau perthnasol i chi.

**12/7/17**- Gwahoddir chi fel rhieni i Gampfa'r Strade am 6.00yh i glywed am y trefniadau yn yr ysgol, a chwrdd â thiwtor cofrestru eich plentyn.

**13/7/17**- Blas ar ddiwrnod yn y Strade gan dreulio amser mewn gwersi. Mae'r Sir wedi trefnu trafnidiaeth i'ch plentyn i'r ysgol ar fws penodol. Os ydych yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol ar fws, yna bydd y manylion gan yr ysgolion Cynradd yn fuan. Os nad yw eich plentyn yn gymwys i deithio ar fws yna gofynnwn yn garedig i chi wneud trefniadau eich hun i gludo a chasglu eich plentyn o'r ysgol.

**Trefniadau'r dydd**.

8.20-8.35 Cyrraedd yr ysgol

8.40-9.00 Cwrdd â'r tiwtoriaid dosbarth yn y Neuadd a chlywed trefniadau'r dydd.

9.00-11.00 Gwers 1 a 2 (trefnir amserlen ar gyfer pob grŵp cofrestru)

11.00-11.15. Amser egwyl (bydd diodydd oer a byrbrydau ar gael yn y Ffreutur am bris rhesymol)

11.15-12.45 Gwers 3 a 4

12.45-14.00 Cinio. Bydd y Ffreutur yn darparu prydau bwyd arferol am bris rhesymol. Bydd angen arian ar eich plentyn i dalu am fwyd.

14.00-15.00 Gwers 5

15.00 Disgyblion yn cerdded i'r arhosfan bysiau. Rhieni i'w casglu os nad oes trefniadau bws ar gael.

**Dyddiadau dechrau tymor mis Medi**

**4/9/17** Hyfforddiant mewn swydd i staff, dim ysgol i ddisgyblion.

**5/9/17** Diwrnod cyntaf y flwyddyn i ddisgyblion Bl 7, 12 a 13.

Diolch am bob cydweithrediad,

Catrin Hughes

(Pennaeth Safonau)